

Adroddiad ar

Ysgol Llys Hywel

**Stryd Y Farchnad
Hendy Gwyn Ar Daf
Caerfyrddin
Sir Gaerfyrddin
SA34 0QB**

Dyddiad yr arolygiad: Mai 2026

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

Ynglŷn ag Ysgol Llys Hywel

Enw'r darparwr	Ysgol Llys Hywel
Awdurdod lleol	Cyngor Sir Gâr
Iaith y darparwr	Cymraeg
Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg	Ysgol dwy ffrwd
Math o ysgol	Cynradd
Cymeriad crefyddol	
Nifer y disgyblion ar y gofrestr	135
Disgyblion o oedran ysgol statudol	103
Nifer yn y dosbarthiadau meithrin	9
Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 21.7%)	14.1%
Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 9.2%)	5.8%
Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd	28.2%
Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol	0%
Partner arweiniol ar gyfer Addysg gychwynnol athrawon	Nac ydy

Adroddiad ar Ysgol Llys Hywel
Mai 2026

Dyddiad penodi'r pennaeth	02/09/2019
Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol)	25/11/2019
Dyddiad dechrau'r arolygiad	05/05/2026

Daw'r data hwn o ddata diweddaraf y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgyblion. Efallai byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: [Fy Ysgol Leol \(gov.wales\)](https://gov.wales)

- a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

Crynodeb

Mae Ysgol Llys Hywel yn gymuned ddysgu ofalgar a chroesawgar sy'n cefnogi anghenion emosiynol a chymdeithasol disgyblion yn llwyddiannus. Mae gweledigaeth gadarn y pennaeth i ddarparu addysg i bob disgybl mewn awyrgylch hapus a diogel yn cael ei rhannu'n bwrpasol gyda'r disgyblion a chymuned ehangach yr ysgol. Mae'r ddarpariaeth i gefnogi lles disgyblion yn nodwedd effeithiol o'r ysgol.

Mae arweinwyr yn arddel prosesau hunanwerthuso yn addas, sy'n hybu gwelliannau yn y ddarpariaeth a chynnydd disgyblion yn briodol. Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas yn eu medrau dros amser. Er hyn, nid yw'r profiadau dysgu bob tro'n herio disgyblion yn ddigon cyson. O ganlyniad, nid yw ychydig o ddisgyblion yn cyflawni hyd eithaf eu gallu bob tro.

Ar y cyfan, mae cwricwlwm yr ysgol yn ennyn diddordeb disgyblion yn briodol. Mae cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddylanwadu ar eu dysgu drwy rannu eu syniadau ar ddechrau uned o waith. Er hyn, nid yw'r cwricwlwm yn ddigon eang a chytbwys nac yn datblygu dealltwriaeth o hanes, diwylliant a thraddodiadau Cymru yn ddigon effeithiol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb i adborth athrawon yn bwrpasol ac yn deall beth yw'r camau nesaf yn eu dysgu yn llwyddiannus.

Mae gan yr holl staff berthynas waith gynhyrchol â'r disgyblion sy'n meithrin awyrgylch ofalgar ar draws yr ysgol. Mae trefniadau cefnogi disgyblion, gan gynnwys disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gadarn. Mae staff yn defnyddio ystod dda o raglenni cefnogaeth pwrpasol sy'n diwallu anghenion disgyblion yn llwyddiannus. Mae staff yn modelu'r Gymraeg yn effeithiol. Er hyn, nid yw disgyblion ar draws yr ysgol yn gwneud cynnydd digon da wrth ddatblygu eu medrau llafar Cymraeg. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agweddau cadarn at eu dysgu ac mae ymddygiad bron bob un yn gyson dda.

Argymhellion

Rydym wedi gwneud tri argymhelliad i helpu'r ysgol barhau i wella

- A1 Sicrhau bod y profiadau dysgu'n herio disgyblion yn briodol
- A2 Sicrhau bod y cwricwlwm yn datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau disgyblion yn briodol ar draws y meysydd dysgu
- A3 Gwella medrau llafar Cymraeg disgyblion

Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Prif werthusiad

Mae'r ysgol yn gymuned ddysgu hapus a chynhwysol lle mae disgyblion a staff yn trin ei gilydd â gofal a charedigrwydd. Mae arweinyddiaeth angerddol y pennaeth yn gosod cyfeiriad strategol clir i ddatblygiad yr ysgol. Mae ganddi weledigaeth gadarn sy'n sicrhau bod bob disgybl yn cael addysg mewn amgylchedd cartrefol a diogel. Mae'n cael ei chefnogi gan staff brwdfrydig sy'n rhannu'r weledigaeth hon yn effeithiol gyda'r disgyblion a chymuned ehangach yr ysgol.

Mae gan yr holl staff berthynas waith gynhyrchol â'r disgyblion, sy'n meithrin awyrgylch ofalgar a chynhwysol ar draws yr ysgol. Mae disgyblion yn barchus ac yn dangos gofal tuag at ei gilydd. Yn yr arfer orau, mae athrawon yn cefnogi disgyblion i arddel a defnyddio'r Gymraeg fel rhan greiddiol o'u dysgu. Er hyn, nid yw llawer o athrawon yn cefnogi disgyblion i gaffael medrau siarad Cymraeg yn ddigon effeithiol dros amser.

Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer datblygu medrau ysgrifennu yn y ddwy iaith yn effeithiol ac mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn natblygiad y medrau hyn. Mae cyfleoedd i ddatblygu medrau rhifedd a digidol disgyblion wedi'u cynllunio'n bwrpasol ac mae hyn yn cyfrannu at gynnydd amlwg yn y medrau hyn. Mae mwyafrif yr athrawon yn darparu cyfleoedd effeithiol i'r disgyblion gymhwyso eu medrau yn fedrus mewn gweithgareddau buddiol, er enghraifft drwy'r prosiect mentergarwch. Ar draws yr ysgol, mae staff yn rhannu adborth adeiladol â'r disgyblion sy'n adnabod eu cryfderau ac yn nodi'r hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn gwella. O oedran ifanc, mae disgyblion yn ymateb yn effeithiol i'r adborth hwn gan wella eu gwaith yn fwriadus.

Mae ymddygiad bron bob disgybl ar draws yr ysgol yn gyson dda. Maent yn gwrtais, yn groesawgar ac yn mwynhau rhannu eu profiadau â staff ac ymwelwyr. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at eu dysgu, yn ymgysgu'r dda â thasgau ac yn canolbwyntio'n effeithiol am gyfnodau estynedig mewn gweithgareddau dysgu. Er hyn, mewn rhai achosion, mae oedolion yn gor-arwain y dysgu ac nid yw'r gweithgareddau bob amser yn herio ychydig o ddisgyblion yn ddigon cyson. Yn ogystal, nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion yn y dysgu sylfaen yn eu hannog i ddysgu'n gynyddol annibynnol ac i archwilio'n ddigon pwrpasol mewn profiadau dysgu cyfoethog.

Mae disgyblion yn ymgymryd â chyfrifoldebau ar nifer o bwyllgorau ysgol yn gydwybodol. Maent yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd maent yn eu cael i ddylanwadu'n gadarnhaol ar fywyd a gwaith yr ysgol a datblygu medrau arwain pwysig fel cydweithio a dangos empathi. Er enghraifft, maent yn ofalgar dros Lleucu, y bochdew cefnogi lles.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau creadigol a chorfforol yn llwyddiannus wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae disgyblion yn arbrofi'n greadigol, yn perfformio ar

draws ystod o gyfryngau ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol sy'n cyfrannu'n effeithiol at eu datblygiad corfforol a'u lles emosiynol. Yn ogystal, mae'r sesiynau awyr agored wythnosol yn cefnogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion i ddatblygu medrau cydweithio a datrys problemau yn bwrpasol.

Mae athrawon yn cyflwyno cwricwlwm sydd, ar y cyfan, yn ennyn diddordeb llawer o'r disgyblion. Ar adegau, gwneir defnydd bwriadus o'r ardal leol i ddarparu profiadau dysgu sy'n perthnasu'n agos â bywyd bob dydd disgyblion. Er enghraifft, mae staff yn trefnu gweithgareddau difyr i ddathlu pen-blwydd yr ysgol yn 150. Yn yr achosion hyn, mae disgyblion yn ymateb yn frwdfrydig ac mae eu mwynhad at eu dysgu yn amlwg. Er hyn, nid yw'r cwricwlwm yn ddigon eang a chytbwys i gefnogi datblygiad, dealltwriaeth a gwybodaeth disgyblion ar draws yr holl feysydd dysgu. Darperir cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddylanwadu ar eu dysgu trwy gynnig syniadau am yr hyn yr hoffent ei ddysgu. Yn ogystal, mae athrawon yn darparu cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ddwysáu eu gwybodaeth a dealltwriaeth o grefyddau, moesau ac arferion mewn diwylliannau gwahanol trwy ystod o destunau difyr.

Mae arweinwyr yn annog staff i ddatblygu'n broffesiynol er mwyn gwella ansawdd yr addysgu a'u harfogi i gyflawni eu cyfrifoldebau'n llawn. Mae gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer rheoli perfformiad staff yn drylwyr. Mae'r cyfleoedd dysgu perthnasol a gynigir yn cysylltu'n agos â blaenoriaethau gwella'r ysgol ynghyd ag anghenion datblygu staff unigol.

Mae arweinwyr yn arddel gwaith tîm ymysg staff ar draws yr ysgol yn llwyddiannus sy'n cyfrannu at eu dealltwriaeth o'u rolau a'u cyfrifoldebau yn werthfawr. Maent yn gyfrifol am agweddau penodol o waith yr ysgol ac yn cyfrannu'n bwrpasol at sicrhau bod llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r rhai o aelwydydd incwm isel, yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau o'u mannau cychwyn.

Mae'r ysgol yn darparu cefnogaeth bwrpasol ar gyfer disgyblion ag ADY. Mae eu hanghenion yn cael eu hadnabod yn gynnar ac mae rhaglenni bwriadus yn cael eu darparu i hyrwyddo cynnydd yn eu lles, a'u medrau llythrennedd a rhifedd. Mae staff yn monitro ac olrhain cynnydd y disgyblion o'u mannau cychwyn yn drylwyr ac yn cynllunio rhaglenni cefnogi pwrpasol sy'n ymateb i ofynion y disgyblion yn effeithiol.

Mae trefniadau hunanwerthuso a sicrhau ansawdd yr ysgol yn briodol. Mae arweinwyr yn defnyddio nifer o ffynonellau tystiolaeth yn addas i gaffael darlun clir o berfformiad yr ysgol. Maent yn adnabod cryfderau a rhai agweddau ar gyfer gwelliant yn gywir ac yn defnyddio'r wybodaeth hon yn llwyddiannus i osod blaenoriaethau clir ar gyfer gwelliant. Er enghraifft, maent wedi cynllunio'n bwrpasol i ddatblygu'r cyfleoedd i ddisgyblion ymateb i'w gwaith yn effeithiol. Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol i'r pennaeth a'r staff ac yn hyrwyddo'r ysgol yn ei chymuned yn llwyddiannus.

Mae arweinwyr, gyda chefnogaeth y staff a'r llywodraethwyr, yn hyrwyddo diwylliant diogelu mewn ffordd effeithiol. Mae hyn yn cefnogi ymdeimlad cryf ymysg disgyblion Ysgol Llys Hywel o fod yn hapus a diogel yn eu hysgol.

Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli'r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion. Er fod gan yr ysgol ganran uchel o arian wrth gefn, mae cynllun gwariant mewn lle ar gyfer y tair blynedd nesaf.

Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. '*y rhan fwyaf o ddisgyblion...*' neu '*ychydig iawn o ddisgyblion...*'. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

bron pob un =	gydag ychydig iawn o eithriadau
y rhan fwyaf =	90% neu fwy
llawer =	70% neu fwy
mwyafrif =	dros 60%
hanner =	50%
tua hanner =	yn agos at 50%
lleiafrif =	islaw 40%
ychydig =	islaw 20%
ychydig iawn =	llai na 10%

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn
(www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:
www.estyn.llyw.cymru

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir aildddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei aildddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 08/07/2026